

Ymchwiliad i gŵyn  
gan Mr N  
yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar  
Ogwr

Adroddiad gan  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Achos: 201503185



<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
Rhagarweiniad	1
Crynodeb	2
Y Gŵyn	6
Yr Ymchwiliad	6
Y Ddeddfwriaeth Berthnasol	7
Y Digwyddiadau Cefndir	8
Tystiolaeth Mr N	10
Tystiolaeth y Cyngor	10
Cyngor Proffesiynol	13
Ymateb y Cyngor i'r adroddiad drafft	17
Dadansoddiad a Chasgliadau	19
Argymhellion	22

## Rhagarweiniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddiennw er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai adnabod unigolion wedi cael eu dileu neu eu hepgor. Mae'r adroddiad felly'n cyfeirio at yr achwynydd fel Mr N.

## Crynodeb

Roedd Mr N yn blentyn oedd yn derbyn gofal gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (“y Cyngor”) ac wedi cael ei leoli â'i ofalwyr maeth blaenorol Mr a Mrs A pan oedd yn blentyn bach iawn. Roedd y lleoliad wedi para am flynyddoedd ond wedi chwalu yn 2014. Roedd Mr N yna wedi cysylltu â'r Cyngor i gael gwybodaeth bellach am gynilion a wnaeth Mr a Mrs A ar ei ran. Cwnodd Mr N:

- nad oedd y Cyngor wedi rheoli ei gynilion yn iawn ac yn unol â'i bolisi.
- bod rhai o'i gynilion wedi cael eu defnyddio, heb drafod y mater gyda fo, i dalu am driphau y dylai fod wedi derbyn lwfans arbennig ar eu cyfer.
- bod y cynilion a dderbyniodd yn Ionawr 2015 yn llawer llai na'r hyn y credai y dylent fod.

Roedd fy ymchwiliad yn ymwneud â'r hyn a wnaeth y Cyngor, nid y rhieni maeth. Derbyniais dystiolaeth fod y Cyngor wedi bod yn anghyson ac afreolaidd yn y ffordd a gymhwysodd ei ganllawiau mewnol ar gyfer rhieni maeth yn ei Lawlyfr Maethu. Roedd yn gorfodi rhai o'i ganllawiau ond nid canllawiau eraill, fel cynilo ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd hyn er gwaetha'r canllawiau rheoliadol sy'n nodi y disgwylir i rieni maeth, ymhlith materion eraill, weithredu o fewn y canllawiau yn y Llawlyfr Maethu.

Fel rhiant corfforaethol i blentyn sy'n derbyn gofal mae gan gyngor ddyletswydd i sicrhau bod cynilion a wneir ar ran y plentyn neu'r plant sy'n derbyn gofal (“LAC”) yn cael eu goruchwyllo a'u monitro'n iawn. Fodd bynnag, yn achos Mr N, cefais fod y Cyngor wedi monitro ei gynilion yn anghyson ac annigonol. Fy nghasgliad oedd bod y methiannau gweinyddol hyn yn gyfystyr â chamweinyddu a **derbyniais** yr agwedd hon ar gŵyn Mr N.

Ni allai'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i ddangos fod Mr N wedi cael gwybod nac ychwaith wedi cytuno i ddefnyddio ei gynilion i dalu am ddau drip a gostiodd £1100 i gyd. Cytunodd y Cyngor i dalu am un o'r triphau mewn cyfarfod adolygu LAC yn 2014, ond newidiodd ei feddwl nes ymlaen heb roi

gwybod i Gadeirydd y cyfarfod adolygu. Unwaith eto cefais dystiolaeth o gamweinyddu a **derbyniais** yr agwedd hon ar gŵyn Mr N.

O ran y drydedd agwedd ar gŵyn Mr N, oherwydd nad oedd y Cyngor wedi cadw cofnodion digonol na chymryd llyfrau cynilo Mr N i'w feddiant i'w cadw'n ddiogel ar ddiwedd lleoliad maeth Mr N, roedd yn aneglur pam fod cynilion Mr N mor isel ag yr oeddent. Penderfynais fod y methiannau a arweiniodd at y sefyllfa'n gyfystyr â chamweinyddu a **derbyniais** yr agwedd hon ar gŵyn Mr N.

Deuthum i'r casgliad, o ganlyniad i gamweinyddu ar eu rhan, na allai'r Cyngor roi cyfrif digonol i Mr N am ei gynilion, oedd wedi achosi anghyfiawnder iddo. Roeddwn wedi cyfrifo ffigur iawndal priodol i Mr N. Heriodd y Cyngor y ffigur hwn ar y sail y byddai Mr N wedi cytuno i wariant arall o'i gynilion, heb dystiolaeth fod hynny wedi digwydd. Fy nhuedd felly yw rhoi mantais yr amheuon hyn i Mr N, y parti mwy bregus yn y mater.

Mae achos Mr N yn codi materion pwysig yng nghyswllt plant LAC a'u cynilion ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Bwriadaf felly rannu fy adroddiad gyda Llywodraeth Cymru.

Rwyf wedi gwneud yr argymhellion canlynol:

- (a) Y dylai Prif Weithredwr y Cyngor ymddiheuro'n ysgrifenedig i Mr N.
- (b) Y dylai'r Cyngor dalu £3,310 i Mr N.
- (c) Y dylai'r Cyngor dalu £250 i Mr N i adlewyrchu'r diffygion yn y modd y cafodd y gŵyn ei thrin.
- (ch) Y dylai'r Cyngor adolygu'r achos hwn o safbwynt trin cwynion a rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd gyda fy swyddfa i.

- (d) Y dylai'r Cyngor rannu copi o fy adroddiad â Phwyllgor y Cabinet ar Faterion Rhianta Corfforaethol a dylai ei Gadeirydd roi manylion i fy swyddfa am unrhyw gamau y bydd y Pwyllgor hwn yn eu cymryd o ganlyniad i'r achos hwn.
- (dd) Y dylai Pwyllgor y Cabinet ar Faterion Rhianta Corfforaethol ystyried y trefniadau mwyaf priodol yn eu barn hwy o ran cynilion hirdymor ar gyfer plant LAC a'u hannog i gynilo o arian poced. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor ystyried y pethau canlynol: ei ddyletswydd i weithredu fel rhiant corfforaethol i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant LAC, a chynlluniau cynilo awdurdod lleol eraill.
- (e) Y dylai'r Cyngor gyflwyno i fy swyddfa ei gynigion a'i gynllun gweithredu ar gyfer adolygu achosion plant LAC a allai, fel Mr N, gael eu heffeithio mewn modd tebyg.
- (f) Y dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau / gofynion presennol ar gyfer cynilion a gwariant ac ar gyfer gwirio, cadw a phasio cofnodion cynilion ymlaen ar ddiwedd lleoliad, gyda golwg ar gyflwyno canllawiau / gofynion cliriach.
- (ff) Mewn cydweithrediad ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, dylai'r Cyngor adolygu ei gytundeb rhieni maeth i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Atodlen 5 i Reoliadau Gwasanaethau Maeth (Cymru) 2003.

Cytunodd y Cyngor i weithredu'r holl argymhellion ac eithrio argymhelliad (b), sef y taliad i Mr N. Roedd yn barod i wneud ad-daliad i Mr N am y ddau drip yr oedd ei gynilion wedi talu amdanynt.

Mae'n siomedig iawn bod y Cyngor hyd yma wedi gwrthod derbyn fy argymhellion yn llawn. Os yw'r Cyngor yn dal at ei safiad ac yn methu â chydymffurfio ag argymhelliad (b) yn llawn o fewn deufis i fy adroddiad (h.y. erbyn 21 Ionawr 2017), bydd yn rhaid i mi ystyried cyhoeddi adroddiad arbennig pellach yn erbyn y Cyngor o dan adran 22 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Os bydd y Cyngor yn dal at ei benderfyniad ar ôl i Bwyllgor y Cabinet ar Faterion

Rhianta Corfforaethol ystyried fy adroddiad, o gofio pa mor ddifrifol yw adroddiad arbennig adran 22, rwyf wedi argymhell bod fy adroddiad hefyd yn cael ei rannu â holl aelodau etholedig y Cyngor.



## Y Gŵyn

1. Roedd Mr N yn saith mis oed pan ddaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("y Cyngor") yn gyfreithiol gyfrifol am ei ofal fel plentyn yn derbyn gofal. Roedd Mr N yn ddwyflwydd oed pan gafodd ef a'i frawd eu lleoli gyda'u gofalwyr maeth blaenorol Mr a Mrs A. Roedd ei leoliad gyda nhw wedi para am flynyddoedd ond yn anffodus wedi chwalu yn 2014. Rai misoedd wedyn cysylltodd Mr N â'r Cyngor i ofyn am esboniad ar y cynilion a wnaeth Mr a Mrs A ar ei ran. Roedd Mr N yn anfodlon â'r esboniadau a dderbyniodd gan y Cyngor.

2. Mae Mr N wedi cwyno i mi:

- na wnaeth y Cyngor reoli'n iawn, ac yn unol â'i bolisi ei hun, y cynilion ariannol a wnaed ar ei gyfer pan oedd yn byw gyda Mr a Mrs A.
- bod rhai o'i gynilion wedi cael eu defnyddio, heb drafod y mater gyda fo, i dalu am driphau y dylai fod wedi derbyn lwfans arbennig ar eu cyfer.
- bod y cynilion o £270 a dderbyniodd yn Ionawr 2015 yn llawer llai na'r hyn y credai y dylent fod wedi bod.

## Yr Ymchwiliad

3. O ran cefndir i'r ymchwiliad hwn, pan gysylltodd Mr N â fy swyddfa i gyntaf, gofynnwyd i'r Cyngor ysgrifennu at Mr N i esbonio'r sefyllfa gyda'i gynilion. Ar ôl derbyn ymateb y Cyngor, cysylltodd Mr N unwaith eto â fy swyddfa. Ar y dechrau cafodd setliad cynnar, o ran talu am y ddau drip, ei drafod â'r Cyngor. Ond cafodd hyn ei dynnu'n ôl a rhoddwyd yr achos gerbron ar gyfer ymchwilio iddo. Roedd hyn oherwydd pryderon fod y methiannau posib yn fwy na'r penderfyniadau ynghylch sut y talwyd am y ddau drip.

4. Mae'r ymchwiliad a ddilynodd wedi canolbwyntio ar sut y gwnaeth y Cyngor reoli cynilion Mr N. Nid ymchwiliad ydoedd i'w ofalwyr maeth blaenorol ac mae unrhyw gyfeiriad atynt wedi bod yn unig er mwyn edrych ar sut y gweithredodd y Cyngor yng nghyd-destun y gŵyn.

5. I fy nghynorthwyo, derbyniwyd sylwadau a chopïau o ddogfennau perthnasol gan y Cyngor. Aeth fy swyddog ymchwilio i'r Cyngor i adolygu ei gofnodion electronig. Fe wnaeth y Cyngor hefyd sylwadau pellach mewn cyfarfod gyda fy swyddogion. Ystyriwyd y dogfennau perthnasol ar y cyd â'r dystiolaeth a gefais gan Mr N. Cefais gyngor hefyd gan fy Nghynghorydd Proffesiynol, Cheryl Beach sy'n Weithiwr Cymdeithasol cofrestredig gyda phrofiad helaeth o wasanaethau plant. Er nad yw fy adroddiad yn cynnwys pob manylyn yr ymchwiliwyd iddo, rwyf yn fodlon nad yw'n gadael unrhyw beth pwysig allan.

6. Yn ystod yr ymchwiliad hwn rwyf wedi ystyried y ddeddfwriaeth sy'n gosod allan fy mhwerau a'r cyfyngiadau perthnasol. O dan y ddeddfwriaeth rhaid i mi ystyried a wnaeth corff cyhoeddus, fel cyngor, drwy ymddwyn yn anghymwys neu'n amhriodol (mewn geiriau eraill wedi camweinyddu), achosi anghyfiawnder personol i achwynydd. Ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gallaf ystyried sut y gwnaeth gweithwyr proffesiynol ymarfer eu crebwyll proffesiynol.

7. I helpu cyrff cyhoeddus o fewn fy awdurdodaeth i ddarparu gwasanaethau gwell, rwyf i a fy rhagflaenydd wedi cyhoeddi canllawiau ar beth yw arfer da o ran gweinyddu a chadw cofnodion.<sup>1</sup> Gallai methiant ar ran corff cyhoeddus i weithredu'n unol â'i ganllawiau mewnol ei hun, mewn rhai achosion, fod yn gyfystyr â chamweinyddu.

8. Cafodd Mr N a'r Cyngor gyfle i weld a gwneud sylwadau ar fy adroddiad drafft cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi.

## **Y Ddeddfwriaeth Berthnasol**

### **Rhiant Corfforaethol**

9. Mae gan gynghorau ddyletswydd statudol i weithredu fel rhiant corfforaethol ar gyfer pob un o'u plant sy'n derbyn gofal.<sup>2</sup> Mae rhianta corfforaethol yn golygu bod yn rhiant da i'r plentyn neu blant sy'n derbyn gofal ("LAC") ac ymddwyn yn y ffordd y byddai unrhyw riant da'n ei

<sup>1</sup> Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 2008, wedi'i ddiweddarau yn Chwefror 2016.

<sup>2</sup> Deddf Plant 1989 fel y'i diwygiwyd.

wneud i sicrhau y gwneir popeth i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i'r plentyn. Disgwylir i bawb mewn cyngor, gan gynnwys swyddogion, fod yn rhiant corfforaethol da i'w plant LAC. Mae canllawiau cenedlaethol<sup>3</sup> ar beth yw cyfrifoldebau allweddol rhiant corfforaethol.

## Llawlyfr Maethu

10. Mae'n statudol ofynnol<sup>4</sup> i ddarparwyr gwasanaethau maethu gynhyrchu canllaw ysgrifenedig ar eu gwasanaeth maethu. Rhaid i'r canllaw hwn, a elwir fel arfer yn llawlyfr maethu, gynnwys nid yn unig unrhyw ganllawiau mewnol ond crynodeb o'r polisi a'r weithdrefn bresennol. Mae yna ganllawiau cenedlaethol ar y safonau gofynnol sy'n berthnasol i wasanaethau maethu ("y Safonau Gofynnol").<sup>5</sup> Mae'r meysydd sy'n berthnasol yn cynnwys monitro gweithgareddau maethu ac ymgynghori â phlentyn LAC ar bopeth sy'n debygol o effeithio ar eu bywyd beunyddiol a'u dyfodol. Disgwylir i ofalwyr maeth weithredu o fewn **yr holl** (fy mhwyslais i) safonau, polisïau a chanllawiau a gytunwyd gan y gwasanaeth maethu.<sup>6</sup>

11. Mae Llawlyfr Maethu'r Cyngor ("y Llawlyfr") yn cynnwys canllawiau i ofalwyr maeth y "dylent" agor cyfrif banc i'w plant maeth a chynilo ar eu rhan. Er bod y Llawlyfr yn cyfeirio gofalwyr maeth at adran a ddylai nodi faint o gynilion i'w gwneud o'r lwfans maethu, mae'r ffigur hwn wedi cael ei adael allan. Mae'r Llawlyfr hefyd yn nodi y gellir cynilo peth neu holl arian poced y plentyn a'i roi yn eu cyfrif cynilo.

## Taliadau a Goruchwylio

12. Mae'r Cyngor yn talu lwfans wythnosol i ofalwyr maeth sy'n talu am gost gofalu am blentyn LAC. Tan fis Mawrth 2014, roedd yn darparu lwfansau ychwanegol ar gyfer dillad, pen-blwyddi, Nadolig a gwyliau i'r plentyn LAC. Gallai'r Cyngor hefyd, unwaith yn unig, dalu am drip ysgol "unwaith mewn oes ysgol" os oedd meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Roedd y Llawlyfr yn nodi bod angen i'r gofalwyr maeth ddangos

<sup>3</sup> Pe bai'n blentyn i mi, Llywodraeth Cymru, 2005 diweddarwyd yn 2009.

<sup>4</sup> Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru), 2003.

<sup>5</sup> Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu, Llywodraeth Cymru, 2003.

<sup>6</sup> Safon 22.3.

sut y gwariwyd y lwfansau ychwanegol hyn. Roedd yn bosib ychwanegu lwfansau gwyliau ychwanegol, yn achos plant LAC hyn nad oedd eisiau mynd ar wyliau â'u gofalwyr maeth, at gynilion.

13. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau maethu drefnu bod gweithiwr cymdeithasol goruchwylio'n ymweld yn rheolaidd â gofalwyr maeth. Yn y Cyngor roedd cofnod o bob ymweliad wedi'i nodi ar brofforma ymweliad goruchwylio ("y Profforma").

14. Roedd rhannau penodol ar y Profforma'n ymwneud â'r lwfansau ychwanegol. Roedd y cwestiynau'n gofyn am ba wariant a wnaed; beth oedd y trefniadau ar gyfer gwario'r lwfansau; ac oedd gan y gofalwyr brawf o'r gwariant, derbynebaw er enghraifft. Roedd y Profforma hefyd yn cynnwys adran ar lwfans maethu a chynilion. Roedd yr adran yma'n delio â gwario'r lwfans maethu; yn gofyn am wybodaeth am y cynllun cynilion ar gyfer y plentyn LAC ac a oedd yn seiliedig ar y canllawiau yn y Llawlyfr; ac yn cyfeirio at y llyfr cynilo a faint o arian a gynilwyd.

## Y Digwyddiadau Cefndir

### Cefndir

15. Yn Ionawr **2015**, ysgrifennodd Mr N at Swyddog Cwynion Plant y Cyngor yn cwestiynu faint o arian oedd wedi'i gynilo yn ei leoliad maeth blaenorol ar ôl blynyddoedd mewn gofal. Yn ei hymateb ysgrifenedig roedd y Swyddog wedi cadarnhau er nad oedd polisi ffurfiol ar faint o arian poced y dylai gofalwyr maeth ei gynilo, roedd yn deall bod "rheol anysgrifenedig" y byddai £5.00 yr wythnos yn cael ei roi heibio. Daeth yr arfer hwn i ben pan ddaeth y lwfansau ychwanegol ar gyfer gofalwyr maeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Nododd y Swyddog fod y materion a godwyd gan Mr N yn disgyn y tu allan i'r weithdrefn berthnasol ar wneud cwyn ffurfiol<sup>7</sup> a'i bod wedi gofyn i Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Rheoliadol Plant ("y Rheolwr Grŵp") ymchwilio i'r mater a rhoi ymateb pellach.

---

<sup>7</sup> Gweithdrefn Cwynion a Sylwadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

16. Ysgrifennodd y Rheolwr Grŵp at Mr N. Dywedodd wrtho fod ei gynilion yn oddeutu £1200 yn 2012. Defnyddiwyd ei gynilion i dalu am drip ysgol i Ewrop ym mis Mawrth 2012 a gostiodd £600, a thrip rygbi yn Ebrill 2014 a gostiodd £500. Roedd wedi derbyn gweddill y cynilion o £270 pan symudodd leoliad maeth. Nododd y Rheolwr Grŵp ei bod ers hynny wedi derbyn £200 gan Mr a Mrs A fel taliadau llog a ddaeth iddynt ar ôl cau ei gyfrif cynilo. Dywedodd fod y banc/cymdeithas adeiladu wedi cadw'r llyfr cynilo oherwydd nad oedd ei angen ar Mr a Mrs A mwyach.

17. Dywedodd y Rheolwr Grŵp nad oedd gan y gofaluwr maeth unrhyw ymrwymiad cyfreithiol i gynilo ar gyfer y plentyn a'i bod yn falch felly bod Mr a Mrs A wedi gwneud hynny. Ychwanegodd hefyd nad oedd y Cyngor erioed wedi gorfodi gofaluwr maeth i gynilo ar gyfer y plant yn eu gofal. Roedd hyn oherwydd nad oedd erioed yn ofynnol, ond ei fod yn arfer da.

### **Tystiolaeth Mr N**

18. Nododd Mr N nad oedd ymatebion y Cyngor wedi rhoi unrhyw wybodaeth newydd iddo. Teimlai Mr N y dylai'r Cyngor fod wedi rhoi gwybod iddo am yr arian oedd yn cael ei roi ei mewn a'i dynnu allan, oherwydd byddai hyn wedi dangos sut yr oedd llog ar y cyfrif wedi cronni. Dywedodd Mr N hefyd na chafodd unrhyw esboniad gan y Cyngor yn egluro pam na ddefnyddiwyd y lwfans trip unwaith mewn oes ysgol (gweler paragraff 12) i dalu am ei drip rygbi.

19. Roedd wedi cwestiynu, ar sail ymateb y Cyngor ynghylch ei bolisi cynilo, a allai plentyn LAC ddisgwyl peidio â derbyn arfer da gan y Cyngor.

### **Tystiolaeth y Cyngor**

20. Yn ei ymateb ffurfiol i fy swyddfa, dywedodd y Cyngor fod ei dystiolaeth ddogfennol yn dangos bod cyfrif cynilo Mr N wedi cael ei fonitro'n rheolaidd, gan gynnwys y gwariant, a bod y llyfr cynilo'n cael ei archwilio'n gyson. Cyfeiriodd y Cyngor at ymweliad goruchwylio ar 9 Medi 2013 pryd y nodwyd fod tua £350 wedi cael ei gynilo ar gyfer

Mr N. Ychwanegodd y Cyngor nad oedd cyfeiriad penodol arall at archwilio llyfrau cynilo. Dywedodd y Cyngor nad oedd yr adolygiad blynyddol a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2013 yn cynnwys unrhyw fanylion am gynilo.

21. Dywedodd y Cyngor mai canllaw i ofalwyr maeth oedd ei Lawlyfr i fod. Roedd yn cynnwys, ar bob cyfle, holl bolisiau a phrosesau'r Cyngor y mae'n rhaid i ofalwyr maeth lynu wrthynt. Roedd llawer o'r wybodaeth arall yn ganllawiau i gynorthwyo'r gofalwyr maeth yn eu rôl. Dywedodd y Cyngor na fu'n ofynnol erioed i ofalwyr maeth agor cyfrif banc ar gyfer plentyn LAC. Yn yr un modd, nid oedd y Cyngor wedi gorfodi bod angen i ofalwyr maeth gynilo ar gyfer plant LAC oherwydd nid oedd yn gyfreithiol ofynnol o dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 na'r Safonau Gofynnol (gweler paragraff 10). Dywedodd y Cyngor eto mai dim ond arfer da oedd agor cyfrif banc a chynilo ar gyfer plentyn LAC.

22. Ychwanegodd nad oedd ei Lawlyfr erioed wedi nodi faint o arian y dylid ei gynilo o'r lwfans maethu. Roedd hynny oherwydd nad oedd yn rhywbeth gorfodol. Roedd faint o arian poced wedi'i nodi oherwydd roedd gan bob plentyn mewn lleoliad hawl i hyn ac ni ellir ei gadw'n ôl.

23. Gofynnwyd i'r Cyngor a oedd ganddo, o bersbectif rhiant corfforaethol, bolisi a gweithdrefn yn eu lle i fonitro cynilion plentyn LAC ac i archwilio'r llyfr cynilo. Dywedodd y Cyngor nad oedd. Ychwanegodd nad oedd yn monitro cynilion plant LAC oni bai, er enghraifft, fod arian yn cael ei gynilo drwy'r cyfrif cynilo unigol i blant iau ("ISA"). Dywedodd y Cyngor ei fod wedi sefydlu ISA ar gyfer Mr N yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.<sup>8</sup> Cadarnhaodd y Cyngor nad oedd y cynilion a wnaeth Mr a Mrs A ar ei gyfer wedi cael eu trosglwyddo i'r cyfrif hwn.

24. Dywedodd y Cyngor nad oedd ganddo gopïau o'r cofnodion yn y llyfr cynilo na derbynebaw ar gyfer gwariant o gyfrif cynilo Mr N. Dywedodd fod derbynebaw'n cael eu gweld gan y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio yn ystod yr ymweliadau goruchwylio. Dywedodd nad oedd llyfr cynilo Mr N wedi cael ei archwilio pan ddaeth

---

<sup>8</sup> Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2012.

ei leoliad maeth i ben, ac na chymrodd y Cyngor ei lyfr cynilo i'w feddiant i'w gadw'n ddiogel. Nododd y Cyngor fod y lleoliad wedi chwalu'n sydyn iawn a'r gobaith oedd y byddai Mr N yn gallu dychwelyd iddo. Fodd bynnag, penderfynwyd wedyn na fyddai'n dychwelyd ac ar y pwynt hwnnw roedd y lleoliad wedi dod i ben.

25. Gofynnwyd i'r Cyngor a drafodwyd sut y byddid yn talu am y tripiâu gyda Mr N. Nododd fod trafodaeth wedi'i chynnal gyda Mrs A a Mr N mewn cyfarfod adolygu LAC (fforwm i ystyried, monitro a diwygio'r cynllun gofal oedd yn ei le i hybu lles y plentyn) ar 21 Mawrth 2014 (gweler paragraff 44). Dywedodd y Cyngor fod y cyfarfod hwn wedi darparu'r dystiolaeth ddogfennol ei fod wedi holi barn Mr N ac wedi trafod yr effaith y byddai'r trip rygbi'n ei gael ar ei gynilion gyda fo. (Mae sylwadau'r Cyngor yn groes i gofnodion y cyfarfod oedd yn argymhell bod y Cyngor yn talu am y trip.)

26. Dywedodd y Cyngor, o ran y trip ysgol i Ewrop ym mis Mawrth 2012 a'r trip rygbi yn Ebrill 2014, na allai ddarparu llungopïau o'r arian a dynnwyd allan o'r llyfr cynilo oherwydd nad oedd y wybodaeth ganddo. Ychwanegodd fod darparu lwfans unwaith mewn oes ysgol wedi dod i ben ar 1 Ebrill 2014. O ganlyniad, nid oedd Mr N yn gymwys i'w dderbyn. Ni allai'r Cyngor, pan ofynnwyd iddo, gadarnhau pryd yr oedd y taliad am drip rygbi Mr N wedi cael ei wneud.

27. Gofynnwyd i'r Cyngor am yr argymhelliad a wnaed yn y cyfarfod adolygu LAC y dylai dalu am gost y trip rygbi. Dywedodd y Cyngor ar y pryd mai trip gweithgareddau awyr agored, neu'r trip rygbi, oedd ar gael. Ychwanegodd y Cyngor, oherwydd mai argymhelliad ac nid pwynt gweithredu ydoedd, mai penderfyniad i weithiwr cymdeithasol Mr N ydoedd, oedd o blaid iddo fynd ar y ddau drip, ond yn deall na allai'r Cyngor dalu am y ddau. Oherwydd bod Mr N wedi mynd ar y ddau drip, roedd y Cyngor wedi talu am y trip gweithgareddau awyr agored yn unig. Ychwanegodd y Cyngor fod Mr a Mrs A wedi defnyddio cynilion Mr N i dalu am y trip rygbi.

28. Ni allai'r Cyngor ddarparu cofnod o'r drafodaeth reoli i beidio â thalu am drip rygbi Mr N. Dywedodd y Cyngor nad oedd gweithdrefn benodol ar sut y dylid gwneud y penderfyniadau hyn.

29. Dywedodd y Cyngor fod Mr a Mrs A wedi gwario tua £1000 i Mr N gael multi-gym y gofynnodd amdano'n anrheg Nadolig a hefyd wedi talu am gwrs chwaraeon cysylltiedig. (Yn ei ymateb i'r adroddiad drafft dywedodd Mr N ei fod wedi cyfrannu ei arian poced at y gost. Yn ateb i gwestiwn gan fy swyddog ymchwilio, roedd Mr N a'i Eiriolwr wedi pwysleisio na ofynnwyd i Mr N ac na chytunodd i'w gynilion gael eu defnyddio tuag at y gost o brynu'r multi-gym.)

30. Dywedodd y Cyngor fod Mr a Mrs A yn cadw tystiolaeth o bob gwariant a wnaed ganddynt yn ofalus. Dywedodd y Cyngor mai'r rheswm am hyn oedd eu bod fel arfer yn gwario ymhell dros eu lwfansau. Ychwanegodd y Cyngor fod y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio wedi gweld y derbynebau hyn. Dywedodd, drwy gadarnhau ei bod yn fodlon â'r ffordd oedd y lwfansau ychwanegol yn cael eu gwario, fod hyn yn brawf fod y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio wedi gweld y derbynebau.

31. Dywedodd y Cyngor fod ymweliad y Rheolwr Grŵp â chartref Mr a Mrs A (pryd y talwyd y llog oedd wedi cronni), wedi digwydd ar 22 Mehefin 2015. Cadarnhaodd y Cyngor nad oedd cofnod achos o'r ymweliad hwn.

32. Yn olaf, cafwyd manylion gan y Cyngor am ei Brofforma ddiwygiedig. Mae hon yn rhoi llawer llai o bwyslais ar fonitro gwariant a chynilion, er bod y canllawiau ar gynilion yn y Llawlyfr heb newid.

## **Cyngor Proffesiynol**

33. Dywedodd fy Nghynghorydd fod y llawlyfr maethu'n un o'r gofynion rheoliadol. Yn ogystal, mae'r Safonau Gofynnol (gweler paragraff 10), o ran eu perthnasedd i Oruchwylio Gofalwyr (Safon 22) yn nodi'n glir pa gamau y disgwylir i weithiwr cymdeithasol goruchwylio eu cymryd i sicrhau bod gofalwyr yn deall bod angen gweithredu'n unol â'r llawlyfr maethu.

34. Dywedodd fy Nghynghorydd, gan nodi nad oedd darparu cynilion yn genedlaethol orfodol yn ystod cwyn Mr N, fod y Cyngor er hynny wedi'i gwneud yn ofynnol i'w gofalwyr maeth agor cyfrif banc a chynilo.



Er nad oedd faint oedd i'w gynilo wedi'i nodi, yn ei lythyr i'r achwynydd roedd y Cyngor wedi dweud wrtho fod "rheol anysgrifenedig" bod £5.00 yr wythnos yn cael ei gynilo ar gyfer pob plentyn.

35. Nododd fy Nghynghorydd mai safiad y Cyngor, i bob golwg, oedd oherwydd bod y gofyniad i gynilo'n ganllaw'n hytrach na'n bolisi, bod gan ofalwyr maeth ryddid i ddewis a oeddent am ei weithredu neu beidio. Fodd bynnag, yn ogystal â bod yn groes i'r Safonau Gofynnol (gweler paragraff 10), dywedodd pe bai'r dehongliad hwn yn cael ei gymhwyso i bob dim yn ei Lawlyfr presennol y byddai hynny'n golygu y gallai gofalwyr maeth ddewis peidio â dilyn canllawiau wedi'u geirio'n debyg ar faterion amddiffyn a diogelu plant hefyd.

36. Dywedodd fy Nghynghorydd fod yr hyn a ddywedodd y Cyngor felly, sef nad oedd cynilo ar gyfer plentyn LAC yn ofynnol, yn groes i'r dystiolaeth yn ei Lawlyfr, yn y disgwyliadau monitro ar y Profforma ac o archwilio arferion dros y cyfnod perthnasol.

37. Bu fy Nghynghorydd yn adolygu'r cofnodion gan gynnwys rhai'r cyfarfodydd goruchwylio maethu a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth 2009 ac Awst 2014. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd hyn gyda Mrs A.

38. Fe wnaeth fy Nghynghorydd sylwadau ar sut yr oedd y Cyngor wedi monitro'r lwfansau ychwanegol a roddwyd i Mr a Mrs A. Fe nododd nad oedd y cofnodion cyn hynny'n cynnwys unrhyw fanylion ynddynt am y gwariant a achoswyd. Yn hytrach roedd sylwadau cyffredinol bod y lwfansau ychwanegol wedi cael eu gwario'n llawn ar Mr N a'i frawd neu'n cael eu defnyddio'n briodol. Yn ogystal, nid oedd unrhyw gofnod bod y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio wedi gofyn am na chael derbynebaw am unrhyw beth a brynwyd neu i archebu gwyliau, fel sy'n ofynnol yn Llawlyfr y Cyngor.

39. O safbwynt cynilo, roedd tystiolaeth gyson o fethu â llenwi'r adran gynilion ar y Profforma'n iawn. Roedd adegau lle soniwyd am y llyfr(au) cynilo ond heb nodi faint oedd wedi cael ei gynilo o gwbl. Ar adegau eraill, cyfeiriwyd at y llyfr(au) cynilo neu faint oedd wedi'i gynilo. Yn yr un modd, roedd diffyg eglurder o ran a welodd y gweithiwr cymdeithasol y llyfrau cynilo mewn gwirionedd neu ai'r cwbl yr oedd yn ei wneud oedd

adrodd yn ôl ar yr hyn a ddywedodd Mrs A wrthi. Rhwng 2009 a 2014 dywedodd fy Nghynghorydd mai dim ond un cofnod (15 Ionawr 2010) oedd lle'r oedd yn ymddangos i fod yn eithaf sicr fod llyfrau cynilo Mr N wedi cael eu gweld.

40. Cyfeiriodd fy Nghynghorydd at y diffyg trafodaeth gofnodedig am faterion pwysig a pherthnasol i gynilion Mr N, gan gynnwys materion yn ymwneud â gwariant sylweddol. Er enghraifft, ar 29 Tachwedd 2011, roedd cyfeiriad at gynllun bod Mr N yn cael mynd ar drip ysgol i Ewrop ond dim cofnod o unrhyw drafodaeth am sut y byddid yn talu am y trip. Daeth yn glir wedyn y defnyddiwyd cynilion Mr N (gweler paragraff 16). Ar 21 Tachwedd 2013 roedd Mrs A wedi adrodd eu bod wedi prynu multi-gym i Mr N, "llechen" gyfrifiadurol a phethau eraill yn anrhegion Nadolig. Eto, nid oedd unrhyw gofnod o drafodaeth am gostau sylweddol yr anrhegion hyn na sut yr oedd Mr a Mrs A wedi talu amdanynt.

41. Nododd fy Nghynghorydd fod y Profforma dyddiedig 13 Mawrth 2013 yn cofnodi bod £1000 yr un wedi'i gynilo mewn un cyfrif [ar gyfer Mr N a'i frawd] gyda £300 arall yr un wedi'i gynilo yn eu cyfrifon swyddfa'r post. Roedd yn 13 Awst cyn y cyfeiriwyd at gynilion eto. Er na chofnodwyd faint o gynilion yr oedd yn siarad amdano, cofnodwyd fod Mrs A wedi cwyno ei bod hi a'r gofalwyr eraill yn anhapus nad oedd cynnydd wedi bod yn y lwfans maethu ers chwe blynedd ond eto bod disgwyl iddynt gynilo o hyd ar gyfer eu plant maeth. Cyfeiriodd Mrs A at y ffaith mai dim ond argymhelliad oedd bod gofalwyr maeth yn cynilo ar gyfer plant a phobl ifanc ac nad oedd yn orfodol. Nododd fy Nghynghorydd nad oedd cofnod bod y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio wedi trafod, herio na chytuno gyda Mrs A.

42. Ar 9 Medi roedd y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio wedi nodi sylwadau Mrs A nad oedd mwyach yn cynilo ar gyfer Mr N oherwydd nad oedd polisi ysgrifenedig yn dweud bod yn rhaid i ofalwyr gynilo ar gyfer plant a phobl ifanc. Cofnodwyd bod y cynilion tua £350. Eto, nid oedd y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio wedi cofnodi ei bod wedi trafod y mater cynilion hwn gyda Mrs A nac ychwaith wedi ei chyfeirio at

y canllawiau ar gynilo yn y Llawlyfr. Nid oedd ychwaith unrhyw esboniad yn cofnodi pam fod cynilion Mr N wedi lleihau i bob golwg ers mis Mawrth 2013.

43. Nododd fy Nghynghorydd fod pob cofnod goruchwylio rhwng 2009 a 2014 yn rhestru fel pwynt gweithredu bod Mr a Mrs A i barhau i gynilo ar ei gyfer bob mis ac roedd hyn wedi parhau hyd yn oed ar ôl i Mrs A ddweud yn glir na fyddai'n cynilo ar ei gyfer mwyach.

44. Cyfeiriodd fy Nghynghorydd at ddigwyddiadau cefndir y trip rygbi a gododd gyntaf mewn cyfarfod goruchwylio yn Ionawr 2014 pan ddywedodd Mrs A y byddai ei gŵr yn mynd â Mr N ar driip rygbi ym mis Ebrill. Cynhaliwyd cyfarfod adolygu LAC ffurfiol ar 21 Mawrth. Roedd swyddog adolygu annibynnol ("IRO") wedi cadeirio'r cyfarfod. Yn y cyfarfod adolygu hwn, trafodwyd cost y trip rygbi a chytunwyd y byddai'r Cyngor yn talu am y trip yn ogystal â lwfans Mrs A.

45. Nododd fy Nghynghorydd yn glir na ddylai cynghorau anwybyddu argymhellion adolygiadau. Os oes unrhyw bryderon am eu gweithrediad, rhaid rhoi gwybod i'r IRO yn syth.

46. Nododd fy Nghynghorydd nad oedd cofnod o bwy oedd wedi gwrthod y cynllun i'r Cyngor dalu am y trip, na pham, pryd a phwy a benderfynodd y dylid defnyddio cynilion Mr N i dalu am y trip. Nid oedd cofnod ychwaith o drafodaeth gyda Mr N fod y Cyngor wedi newid ei feddwl, neu ei fod yn gwybod am ac y gofynnwyd iddo gytuno i ddefnyddio ei gynilion i dalu am y trip.

47. I gloi, dywedodd fy Nghynghorydd fod Mr N wedi bod yng ngofal y Cyngor drwy gydol ei blentyndod ar wahân i ychydig fisoedd. Roedd y Cyngor yn disgwyl i Mr a Mrs A gynilo ar ei gyfer ond nid oedd wedi gallu rhoi cyfrif iawn am y cynilion hyn. Dywedodd y byddai cofnodion cyfrifo iawn wedi gwarchod buddiannau Mr N. Dywedodd fy Nghynghorydd nad oedd y Cyngor wedi rhoi gwybod iddo cyn tynnu arian allan, yn enwedig pan oedd yn ei arddegau. Nid oedd wedi ymateb i wrthodiad Mrs A i barhau i gynilo ar ei gyfer ar ôl Medi 2013. Roedd hefyd wedi methu â rhoi ei ddau lyfr cynilo iddo pan symudodd i leoliad newydd. Teimlai fy Nghynghorydd fod diffyg unrhyw ganllawiau ar sut i wario

cynilion plant LAC, ynghyd â methiant i bob golwg i gydnabod pa mor bwysig yw trafod sut y caiff eu cynilion eu defnyddio, yn debygol o fod wedi cyfrannu at y lleihad sylweddol yng nghynilion Mr N.

### **Ymateb y Cyngor i'r adroddiad drafft**

48. Roedd y Cyngor yn ei sylwadau i mi'n ail-ddatgan ei safiad bod cynilo gan ofalwyr maeth ar ran plant LAC yn seiliedig ar ganllawiau'n hytrach na pholisi. Roedd y Cyngor wedi nodi bod faint oedd i'w gynilo'n absennol o'r adran ar lwfansau maethu yn y Llawlyfr. Roedd hyn oherwydd bod y ffigurau'n seiliedig ar lwfansau gofynnol cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd nad oedd unrhyw ganllawiau cenedlaethol na swm penodol ar gyfer cynilion. Nododd y Cyngor hefyd, ar wahân i'r ffaith bod angen agor cyfrif ISA i blant iau, nad oedd polisi na chanllawiau cenedlaethol yn eu lle ar gynilion ar gyfer plant LAC.

49. Roedd y Cyngor yn gwahaniaethu rhwng canllawiau mewnol yn ei Lawlyfr ar faterion diogelu (fel na ddylid gadael plant ar eu pen eu hunain gyda chŵn) a fyddai'n cael eu gorfodi, a chanllawiau ar gynilion na fyddai'n cael eu gorfodi. Nododd fod prinder gofalwyr maeth yn golygu na fyddai'n terfynu eu gwasanaeth pe byddent yn dewis peidio â chynilo ar gyfer eu plentyn LAC. Dywedodd y Cyngor ei fod am gadw ei ganllawiau ar gynilion yn ei Lawlyfr oherwydd ei fod eisiau annog gofalwyr i gynilo ar ran plant LAC.

50. O edrych ar achos Mr N yn benodol, dywedodd y Cyngor ei fod yn cymryd ei gyfrifoldeb a'i rôl fel rhiant corfforaeth ar gyfer plant LAC yn wirioneddol o ddifrif. Cyfeiriodd at waith ei Bwyllgor Cabinet ar Faterion Rhianta Corfforaethol fel tystiolaeth o hyn.

51. Dywedodd y Cyngor eto ei fod wedi gweithredu o fewn ei ganllawiau ar gynilo. Dywedodd fod Mr N wedi bod yn hapus iawn yn ei leoliad maeth ac wedi cael ei drin fel aelod llawn ac integredig o'r teulu maeth ac nid fel dim ond plentyn LAC.

52. Dywedodd nad oedd cwestiwn na phroblem erioed wedi codi ynglŷn â faint oedd yn cael ei wario ar Mr N a phlant eraill yn y cartref maeth, ac yng nghyd-destun paragraff 38, na chafodd y gweithiwr

cymdeithasol goruchwylio erioed reswm i gwestiynu Mrs A ynghylch y sefyllfa ariannol, gan gynnwys cynilion. Ar y mater o gadw cofnodion, dywedodd y Cyngor nad oedd disgwyl i bob trafodaeth fel rhan o ymweliad goruchwylio gael ei chofnodi'n llawn a manwl a phwysleisiodd eto fod Mr a Mrs A yn ofalwyr maeth ers tro byd ac na fu'r gwariant ar y plant oedd yn eu gofal erioed yn broblem.

53. Dywedodd y Cyngor fod y Gweithwyr Achos Diogelu a Gwasanaeth Maethu hefyd yn fodlon bod Mr N yn derbyn mwy na'r lwfansau sylfaenol a roddir i ofalwyr maeth, fel yr oedd ei edrychiad a'r holl bethau oedd ganddo'n ei ddangos. Gorffennodd y Cyngor drwy ddweud nad oedd yn credu fod Mr N wedi bod o dan unrhyw anfantais oherwydd ei statws LAC tra'r oedd yn ei ofal ac yn fodlon ei fod wedi cyflawni ei ddyletswydd fel rhiant corfforaethol tuag ato'n briodol.

54. Ar y mater o drin cwynion, esboniodd y Cyngor y gyfres o ddigwyddiadau a arweiniodd at drin pryderon Mr N fel "problem wasanaeth" yn hytrach na chwyn ffurfiol. Dywedodd pe bai pryderon Mr N wedi cael eu trin fel chwyn ffurfiol, mai'r Rheolwr Grŵp dal fyddai'r person a fyddai wedi ymateb i'r gŵyn ac felly na fyddai'r canlyniad wedi bod ddim gwahanol. Yn ogystal, roedd y dulliau cofnodi ac adrodd ffurfiol i uwch reolwyr yr un fath ar gyfer materion neu broblemau gwasanaeth ag ar gyfer cwynion ffurfiol o dan y weithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol.

55. Roedd y Cyngor yn cydnabod y gallai ei ymateb i Mr N fod wedi ymddangos yn "ddifater neu'n ddigydyndeimlad". Ymddiheurodd a dywedodd nad dyna oedd ei fwriad. Ychwanegodd y Cyngor nad oedd tŷ ei ymateb yn adlewyrchiad o'r ffordd yr oedd fel arfer yn ymateb i blant LAC. Dywedodd ei fod yn cymryd pob chwyn yn wirioneddol o ddifrif ac yn delio'n gwrtais a phrydlon â phob un er mwyn datrys y mater mor gyflym â phosib. Dywedodd o ran dysgu gwersi ei fod wedi adolygu'r ffordd yr oedd yn ymateb i bobl.

56. Esboniodd y Cyngor sut yr oedd yn ceisio symud ymlaen gyda'r agenda gynilion ar lefel genedlaethol, drwy geisio cael safiad / polisi cenedlaethol ar gynilo ar gyfer plant LAC, ac ar lefel ranbarthol drwy drafod y mater gydag awdurdodau lleol a phartïon budd eraill.

## Dadansoddiad a Chasgliadau

57. Mae cwyn Mr N wedi canolbwyntio ar fethiant y Cyngor i orfodi a monitro ei gyfrif cynilion yn ddigonol fel plentyn LAC yn ei leoliad maeth blaenorol. O ganlyniad dywedodd fod ei gynilion yn llawer llai nag y byddai wedi disgwyl iddynt fod.

58. Cefais fy nghynorthwyo'n fawr gan y cyngor a gefais gan fy Nghynghorydd Proffesiynol. Rwyf wedi ystyried ei chyngor wrth gyrraedd fy nghasgliad yn yr achos hwn. Rwyf wedi nodi ei chyngor yn eithaf manwl yn fy adroddiad felly gallaf fod yn gymharol fyr o ran yr hyn sydd gennyf i'w ddweud.

59. Cwynodd Mr N na wnaeth y Cyngor reoli'n iawn, ac yn unol â'i bolisi ei hun, y cynilion a wnaed ar ei gyfer. Er i mi gydnabod dadl y Cyngor nad yw canllawiau'r un peth â pholisi, mae safiad y Cyngor yn ymddangos yn anghyson ac afreolaidd. Yn ôl yr hyn a welaf, mae'r gair "dylai" yn y canllawiau weithiau'n golygu "rhaid" (er enghraifft mewn materion diogelu) ac weithiau'r bwriad yw iddo olygu "gallai" (er enghraifft yng nghyd-destun cynilo ar gyfer y plentyn). Mae'r Safonau Gofynnol yn nodi'n glir y disgwylir i ofalwyr maeth weithredu o fewn yr holl safonau, polisiau a chanllawiau. Os yw'r Cyngor yn bwriadu i rai o'r canllawiau fod yn orfodol, a rhai'n ddewisol, dylid nodi hynny'n glir er mwyn osgoi dryswch ac ansicrwydd i ofalwyr maeth a phlant LAC.

60. Er mai arweiniad yn unig yw canllawiau, gallai methu â rhoi sylw dyledus iddynt fod yn gyfystyr â chamweinyddu. Er y gall Cyngor wyro oddi wrth ganllawiau, dylai hyn fod o ganlyniad i benderfyniad clir wedi'i gofnodi'n esbonio'r rheswm dros wyro oddi wrth y canllawiau. Ni ddylai fod yn ddim ond esboniad ôl-weithredol o ddull nad yw'n dilyn y canllawiau.

61. Fel y dywedais ar ddechrau fy adroddiad, mae fy ymchwiliad yn ymwneud â'r hyn a wnaeth y Cyngor yn hytrach na'r hyn a wnaeth y gofalwyr maeth, ac nid oes gennyf unrhyw feirniadaeth o'r gofalwyr maeth yn fy adroddiad. Mae fy nghanfyddiadau'n ymwneud â gweithredoedd y Cyngor yn unig. Edrychais felly'n benodol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn trefnu cynilion ar gyfer plant LAC, fel y'i nodir mewn

canllawiau ac yn ei weithrediadau. Rwyf wedi ystyried dadl y Cyngor nad yw'n ofynnol i ofalwyr maeth gynilo, ac fel y mae hynny'n ei awgrymu felly, na ellir disgwyl i'r Cyngor fod yn goruchwyllo cynilion yn drylwyr a thrwyadl.

62. P'un ai oes rhwymedigaeth ar ofalwyr maeth i gynilo ar gyfer plant LAC neu beidio, mae gan y Cyngor fel rhiant corfforaethol ddyletswydd i sicrhau ei fod yn goruchwyllo a monitro unrhyw gynilion yn ddigonol. Mae Llawlyfr y Cyngor yn nodi'r dull ar gyfer cynilo ac yn awgrymu y dylai gofalwyr maeth fod yn cynilo ar gyfer plant LAC. Yn ogystal, mae ffurflenni monitro a lenwir gan weithwyr cymdeithasol goruchwyllo'n amlwg wedi'u llunio i gynnwys manylion am gynilion, sy'n dangos fod y Cyngor yn cydnabod ei rôl i oruchwyllo cynilion plant LAC.

63. Yn yr achos hwn, roedd cofnodion monitro'r Cyngor ar gyfer y cynilion yn anghyson ac annigonol gan olygu nad oes unrhyw gofnod iawn o'r cynilion a'r gwariant o'r cynilion. Felly mae faint o gynilion terfynol sydd ar gael i Mr N yn ddiesboniad. Oherwydd bod lefel y cynilion yn llawer llai na'r hyn yr oedd Mr N yn ei ddisgwyl, mae hyn yn annerbyniol. Credaf fod y methiannau gweinyddol hyn yn gyfystyr â chamweinyddu. Rwyf felly'n **derbyn** yr agwedd hon ar gŵyn Mr N.

64. Cwynodd Mr N hefyd fod rhai o'i gynilion wedi cael eu defnyddio, heb drafod y mater gyda fo, i dalu am dripliau y dylai fod wedi derbyn lwfans arbennig ar eu cyfer. Cytunodd y Cyngor yn y cyfarfod adolygu LAC ar 21 Mawrth 2014 (gan gofnodi ei gytundeb) i dalu am y trip rygbi. Ymddengys bod y Cyngor wedi newid ei feddwl, heb gyfeirio'r mater at y Swyddog Adolygu Annibynnol fel y dylai fod wedi'i wneud. Talwyd am y trip allan o gynilion Mr N ond ni allai'r Cyngor ddangos a ofynnwyd neu a oedd Mr N wedi cytuno i dalu am y trip allan o'i gynilion. Mae hyn yn gyfystyr â chamweinyddu ac rwyf felly'n **derbyn** yr agwedd hon ar gŵyn Mr N.

65. Y drydedd agwedd ar gŵyn Mr N oedd bod y cynilion a dderbyniodd yn Ionawr 2015 yn llawer llai nag y dylent fod wedi bod. Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion digonol ac wedi methu â sicrhau bod y cynilion yn cael eu rheoli ac i roi cyfrif iawn amdanynt. Yn niffyg cofnodion, datganiadau na derbynebaw, mae'n aneglur pam fod y

cynilion mor isel ag y maent. Pan dalwyd y taliad llog o £200 i'r Cyngor nid oedd unrhyw gofnod i ddangos sut wnaeth y swm hwnnw gronni oherwydd nid oedd y Cyngor wedi cadw unrhyw gofnodion na chymryd y llyfrau cynilo i'w feddiant. Mae'r methiannau hyn yn gyfystyr â chamweinyddu. Rwyf felly'n **derbyn** yr agwedd hon ar gŵyn Mr N.

66. Mae'r camweinyddu yn yr achos hwn wedi achosi anghyfiawnder i Mr N. Dylai fod wedi gallu gweld pa gynilion a wnaed ar ei gyfer a sut y cawsant eu defnyddio. Ni allai wneud hyn oherwydd nid oedd cyfrif iawn wedi'i wneud amdanynt. Wrth benderfynu sut i unioni'r anghyfiawnder hwn rwyf wedi ystyried "rheol anysgrifenedig" y Cyngor y dylid cynilo £5 yr wythnos, a thrwy lwfa ar gyfer arian sydd eisoes wedi'i dalu i Mr N, rwyf wedi cyrraedd ffigur sy'n cynnig iawndal ariannol priodol yn yr achos hwn. Mae hyn wedi'i gynnwys yn fy argymhellion. Er bod y Cyngor wedi herio'r ffigur hwn ar y sail bod Mr N wedi cytuno i wariant arall allan o'i gynilion, nid oes tystiolaeth fesuradwy o hyn ac rwyf yn tueddu i roi mantais yr amheuaeth am hyn i'r parti mwy bregus sef Mr N.

67. Mae fy ymchwiliad hefyd wedi canfod diffygion yn y ffordd y deliodd y Cyngor â chŵyn Mr N. Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gallai ei ymateb i Mr N fod wedi ymddangos yn "ddifater neu'n ddigydyndeimlad" ac wedi ymddiheuro am hyn. Rwyf yn parhau o'r farn fod y Cyngor yn rhy gul ei farn pan gasglodd nad oedd achos Mr N yn un oedd yn dod o dan ei weithdrefn cwynion gwasanaethau cymdeithasol. Rwyf yn parhau i boeni fod y ffordd yr ymatebodd y Cyngor i gŵyn Mr N yn yr achos hwn yn golygu na chafodd lais plentyn LAC ei glywed yn iawn. Mae sylw Mr N fod ymateb y Cyngor iddo'n awgrymu iddo na allai plentyn LAC ddisgwyl i'r gwasanaeth a roddir iddynt adlewyrchu arferion gorau, yn bryder arbennig.

68. Er gwaethaf methiannau'r Cyngor, mae achos Mr N yn codi materion pwysig yng nghyswllt plant LAC a'u cynilion ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Cyngor wedi rhoi hyn ar yr agenda i'w drafod ar lefel genedlaethol. Gobeithio y bydd y materion a gododd yn fy ymchwiliad yn arwain at newidiadau er gwell a datblygu polisi cenedlaethol pellach ar gynilion hirdymor i blant



LAC, gan adlewyrchu bod angen i gynghorau sicrhau ar gyfer plant LAC y canlyniadau y byddai pob rhiant da eisiau eu sicrhau i'w plant eu hunain. Byddaf felly'n rhannu fy adroddiad gyda Llywodraeth Cymru.

## Argymhellion

69. Rwyf yn **argymell**:

- (a) Y dylai Prif Weithredwr y Cyngor ymddiheuro'n ysgrifenedig i Mr N am y methiannau a nodwyd.
- (b) Y dylai'r Cyngor dalu £3,310 i Mr N.
- (c) Y dylai'r Cyngor dalu £250 i Mr N i adlewyrchu'r diffygion yn y modd y cafodd y gŵyn ei thrin.
- (ch) Y dylai'r Cyngor adolygu'r achos hwn o safbwynt trin cwynion a rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd gyda fy swyddfa i..
- (d) Y dylai'r Cyngor rannu copi o fy adroddiad â Phwyllgor y Cabinet ar Faterion Rhianta Corfforaethol a dylai ei Gadeirydd roi manylion i fy swyddfa am unrhyw gamau y bydd y Pwyllgor hwn yn eu cymryd o ganlyniad i'r achos hwn.
- (dd) Y dylai Pwyllgor y Cabinet ar Faterion Rhianta Corfforaethol ystyried y trefniadau mwyaf priodol yn eu barn hwy o ran cynilion hirdymor ar gyfer plant LAC a'u hannog i gynilo o arian poced. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor ystyried y pethau canlynol: ei ddyletswydd i weithredu fel rhiant corfforaethol i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant LAC, a chynlluniau cynilo awdurdod lleol eraill.
- (e) Y dylai'r Cyngor gyflwyno i fy swyddfa ei gynigion a'i gynllun gweithredu ar gyfer adolygu achosion plant LAC a allai, fel Mr N, gael eu heffeithio mewn modd tebyg.

- (f) Y dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau / gofynion presennol ar gyfer cynilion a gwariant ac ar gyfer gwirio, cadw a phasio cofnodion cynilion ymlaen ar ddiwedd lleoliad, gyda golwg ar gyflwyno canllawiau / gofynion cliriach.
- (ff) Mewn cydweithrediad ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y dylai'r Cyngor adolygu ei gytundeb rhieni maeth i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Atodlen 5 i Reoliadau Gwasanaethau Maeth (Cymru) 2003.

70. Dylai'r Cyngor weithredu argymhellion (a) a (d) o fewn **un mis** i fy adroddiad terfynol, argymhellion (b), (c) a (h) o fewn **deufis** ac argymhellion (e) – (g) ac (i) o fewn **chwe mis** i fy adroddiad terfynol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth dyma'r "cyfnodau a ganiateir" yr wyf yn disgwyl i'r Cyngor gydymffurfio â fy argymhellion o fewn iddynt i bwrpasau adran 19 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

71. Mae'r Cyngor wedi cytuno i weithredu'r holl argymhellion ac eithrio argymhelliad (b), sef y taliad i Mr N. Ychwanegodd fod y Cyngor yn dal i fod yn barod i wneud ad-daliad i Mr N am y ddau drip y talodd ei gynilion amdanynt.

72. Mae'n siomedig iawn bod y Cyngor hyd yma wedi gwrthod derbyn fy argymhellion yn llawn. Os yw'r Cyngor yn dal at y safiad hwn ac yn gwrthod cydymffurfio ag argymhelliad (b) yn llawn o fewn deufis i fy adroddiad (h.y. erbyn 21 Ionawr 2017), bydd yn rhaid i mi ystyried cyhoeddi adroddiad arbennig pellach yn erbyn y Cyngor o dan adran 22 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Os bydd y Cyngor yn dal at ei benderfyniad ar ôl i Bwyllgor y Cabinet ar Faterion Rhianta Corfforaethol ystyried fy adroddiad, o gofio pa mor ddifrifol yw adroddiad arbennig adran 22, rwyf wedi argymhell bod fy adroddiad hefyd yn cael ei rannu â holl aelodau etholedig y Cyngor.

**Nick Bennett**  
Ombwdsmon

22 Tachwedd 2016

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150  
Ffacs: 01656 641199  
E-bost: [holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk](mailto:holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk)  
Dilynwch ni ar Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)